# Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir Ceredigion 2023-2024*

Pwrpas y Cofnod hwn o Gamau Gweithredu yw monitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn eu cyfarfodydd e.e. pan fu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ofyn i adroddiad gael ei gyflwyno iddynt, neu y gofynnwyd am wybodaeth ar gyfer Cyfarfod yn y dyfodol.

Am fwy o wybodaeth ar y Cofnod o Gamau Gweithredu dylid cysylltu â'r Swyddog Llywodraethu.

Diweddarwyd: 10 Ionawr 2024

* Blwyddyn Fwrdeistrefol
Bydd camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi eu cwblhau yn cael eu tynnu oddi ar y Cofnod dilynol o Gamau Gweithredu.

Acronymau:

AW – Archwilio Cymru
PW: Prif Weithredwr
SAC – Swyddog Arweiniol Corfforaethol
SDD – Swyddog Diogelu Data
BW – Blaenraglen Waith
SLl – Swyddog Llywodraethu
SM – Swyddog Monitro
RhC – Rheolwr Corfforaethol
RhCAM – Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol
PRhD – Pwyllgor Rheoli Datblygu
PLlA – Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
C a Ll – Cyfreithiol a Llywodraethu
Amh – Amherthnasol
IG – I'w gadarnhau

| Rhif | Dyddiad Cyfarfod Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Eitem | Nodiadau / Sylwadau | Cam Gweithredu | Swyddog(ion) sy'n gyfrifol am y cam gweithredu | Diweddariad ar y cynnydd a wnaed | I'w adrodd nesaf | Statws | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 27/09/2022 | **16 Cofrestr Risgiau Corfforaethol - Chwarter 1** | (iii) Dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach roi ystyriaeth bellach i lwyth gwaith y tîm Diogelwch Bwyd oherwydd nifer yr arolygiadau sydd heb eu gwneud. | Dylai'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach roi ystyriaeth bellach i lwyth gwaith y tîm Diogelwch Bwyd oherwydd nifer yr arolygiadau sydd heb eu gwneud | Katy Sinnett-Jones | Ar 22 Tachwedd 2023, ystyriodd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr adroddiad ar gyflwyno safonau hylendid bwyd ac arolygiadau bwyd anifeiliaid yng Ngheredigion. Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i dderbyn yr adroddiad ac argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2023-24. | | **Wedi'i gwblhau** | |
| 2 | 09/03/2023 | **Cofrestr Risgiau Corfforaethol – Chwarter 3** | Mae angen gwell dealltwriaeth o'r broses a ddefnyddir i benderfynu pa eitemau sy'n cael eu cynnwys a pha eitemau sy'n cael eu tynnu i ffwrdd. | Gofynnwyd a fyddai modd cynnal gweithdy i esbonio'r broses o ychwanegu risgiau at y gofrestr risgiau corfforaethol / tynnu risgiau i | Alun Williams | | | **Wedi'i gwblhau** | Caiff gweithdy ei ystyried unwaith y bydd y Fframwaith a'r Strategaeth newydd ar gyfer Asesu Risgiau wedi'u cyflwyno. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ffwrdd o'r gofrestr risgiau corfforaethol. | | | | | |
| 3 | 27/09/2023 | **7 Ymateb y Cyngor i Adroddiadau a Diweddariadau'r Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth** | ii) Bydd ffurflenni ymateb gan reolwyr yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno ochr yn ochr ag Adroddiadau perthnasol y Rheoleiddwyr a'r Arolygiaeth. | Templed newydd ar gyfer yr adroddiad gan uno eitemau rheolaidd 6 a 7 | Elin Prysor | Agenda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - 24.01.24 | Ionawr 24 | **Wedi'i gwblhau** | Adroddiad wedi'i ddiweddaru ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 24/01/2024 |
| 4 | 27/09/2023 | **8 Datganiad Llywodraethu Blynyddol** | **i)** Datganiad Llywodraethu Blynyddol / Y Cod Lleol / Y Fframwaith Llywodraethu<br>•Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar y dogfennau hyn yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd.<br>•Bydd dogfen gyffredinol yn cael ei chyflwyno fel y gellid ystyried Fframwaith a Datganiad 2023-24 | Bydd y gwaith ar ddiweddaru / adolygu'r dogfennau yn dechrau. | Elin Prysor | Mae dogfen am y Fframwaith Llywodraeth wedi'i chreu er mwyn rhoi esboniad mwy manwl ac eang am y Datganiad Llywodraethu Blynyddol | Ionawr 24 | **Ar y gweill** | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **ii)** Mae'r aelodau lleyg yn dymuno derbyn gwahoddiad i weithdai'r Aelodau ynghylch pennu cyllideb 24/25 | Byddai AJ yn trefnu bod yr aelodau lleyg yn cael eu gwahodd i'r gweithdai am gyllideb 24/25 | Alex Jenkins | Cyfarfu Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio â Duncan Hall ar 6.12.23 i fynd drwy'r broses o bennu'r gyllideb | Tachwedd 23 | **Wedi'i gwblhau** | |
| 5 | 27/09/2023 | **10 Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarter 1 2023-24** | (ii) dylai'r Aelodau Cabinet perthnasol fod yn ymwybodol o unrhyw faterion a godir yn Adroddiadau Archwilio Mewnol. | | | | | **Wedi'i gwblhau** | |
| | | | (iii) nodi bod cyfarfod dilynol wedi'i gynnal gyda'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Rheolwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am wasanaeth yr Amgueddfa ac y byddai Archwiliad Mewnol arall o'r Rheolaeth Ariannol ac Incwm yn cael ei gynnal ym mis Hydref i sicrhau bod y rheolwyr yn rhoi sylw i'r materion a godwyd o ran rheolaethau digonol. | Byddai'r Adain Archwilio Mewnol yn archwilio'r trefniadau rheoli ariannol ymhellach. | Alex Jenkins | | | **Ar y gweill** | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | (vi) gofyn i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol sy'n gyfrifol am siop yr amgueddfa i fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godir yn y ddogfen. | Byddai EP yn gofyn i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Elin Prysor | Datrysiad amgen: (mae'r Aelod Cabinet a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol wedi'u hysbysu.) Gofynnwyd i Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ychwanegu eitem at y Flaenraglen Waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cymryd camau unioni. | | **Wedi'i gwblhau** | |
| 6 | 27/09/2023 | **13 Hunanasesiad Cyngor Sir Ceredigion** | (ii) byddai fersiwn ddrafft yr Adroddiad Hunanasesu yn cael ei ddiweddaru yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. | | | | 24/01/2024 | **Wedi'i gwblhau** | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 27/09/02023 | **14 Cofrestr Risgiau Corfforaethol** | (ii) O ran R009: Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Diogelwch Seiber, mae'r Pwyllgor wedi gofyn iddynt gael eu hystyried fel dwy risg ar wahân oherwydd difrifoldeb ymosodiadau seibr. Byddai'r argymhelliad hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Grŵp Arweiniol fel y gallai aelodau'r Grŵp ei ystyried; | Ystyried rhannu R009 yn ddwy eitem ar wahân ar y Gofrestr Risgiau. | Alun Williams | | 24/01/2024 | **Wedi'i gwblhau** | Mae'r eitemau bellach wedi'u rhannu'n ddwy - R009 Rheoli Gwybodaeth a R024 Cydnerthedd Seiber |
| 8 | 27/09/2023 | **15 Fersiwn Ddrafft Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risgiau Corfforaethol** | (iii) awgrymu'r canlynol i'r Grŵp Arweiniol: os byddai Aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gofyn am gynnal gweithdy am bwnc penodol neu os byddent yn dymuno mynd i weithdy am y gyllideb, dylai hyn gael ei ganiatáu. | Gofyn i'r Grŵp Arweiniol ystyried y posibilrwydd o roi gwahoddiad i aelodau lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddod i weithdai. | Elin Prysor | | | **Wedi'i gwblhau** | Mae'r Grŵp Arweiniol wedi nodi'r sefyllfa. Ni fydd aelodau lleyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu gwahodd i weithdai'r gyllideb. |